# Gweithgaredd 6

# Llecyn Llanast

## Cadw Dôl-wen yn daclus

## Nod

**Maes Dysgu** – Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd**
**Llinyn** – Darllen
**Elfen** – Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd
**Agwedd** – Darllen a deall

## Tasg Ffocws

**'Dewch, mae'n amser i ddysgu am sut i gadw Dôl-wen yn daclus':**

Mae'r sbwriel sydd yn cael ei adael ar gae Dôl-wen wedi Gŵyl Calan Mai, yn creu llanast ac yn denu gwylanod blin. Mae Gwyn a Gwen yn meddwl ei bod yn bwysig i bawb ddysgu am sut i gadw Dôl-wen yn daclus!

- gofyn i'r disgyblion ddarllen y wybodaeth ar bosteri arweiniad *Cadw Dôl-wen yn daclus!* er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i greu poster
- trafod prif nodweddion poster, megis defnyddio berfau gorchmynnol i berswadio'r darllenydd, cynnwys gwybodaeth briodol yn gryno gan ddefnyddio geiriau ac ansoddeiriau'n gywir, ac amrywio maint, lliw a lleoliad ffontiau er mwyn dal sylw'r darllenydd a chreu poster deniadol
- cymell y disgyblion i ymateb ar lafar i'r rheolau a nodir ar y posteri arweiniad ar sut i gadw cae Dôl-wen yn daclus
- creu poster atyniadol a lliwgar yn annibynnol gan restri rheolau a lluniau priodol, er mwyn dangos eu bod wedi darllen a deall y ffeithiau oedd ar bosteri arweiniad *Cadw Dôl-wen yn daclus!*




## Adnoddau Posib

- posteri arweiniad *Cadw Dôl-wen yn daclus!*

### Nodyn Gwyrdd Mam-gu Iet-wen

Wyddoch chi fod gadael sbwriel yn gallu achosi llygredd? Mae'r rhan fwyaf o bethau yn gallu cael eu hailgylchu - holwch eich canolfan ailgylchu leol i dderbyn rhestr gyflawn.

### Antur Natur Mam-gu Iet-wen

Ewch ati i greu posteri i'w gosod yn yr ardal allanol i annog eraill i gyd-ofalu am yr ardal leol.




## Colofn Iaith

Beth yw poster?
Darn o bapur neu lun sy'n perswadio rhywun i wneud rhywbeth yw poster.
Beth mae'r poster yma'n ceisio ein perswadio i wneud?
Ydych chi'n gwybod beth yw berf?
Mae berf yn dangos rhywun yn gwneud rhywbeth.
Mae berfau gorchmynnol yn perswadio rhywun i wneud rhywbeth.

**Berfau/Berfau gorchmynnol**
cadw/cadwch
cau/caewch
cerdded/cerddwch
mynd/ewch
parchu/parchwch

Fedrwch chi weld teitl y poster?
Pam mae'r teitl yn fawr?
Ble mae'r wybodaeth bwysig?
Pam mae'r wybodaeth mewn pwyntiau?
Oes llun ar y poster? Pam?
Mae rheolau ar y poster.
Pam mae'n bwysig dilyn rheolau?
Pam mae angen mynd â sbwriel adref?
Beth all ddigwydd os ydych yn crwydro oddiar y llwybrau?
Oes angen cau iet o hyd? Pam?
Sut gallwch barchu eraill yn yr amgylchedd?
Beth ydych chi'n hoffi am y poster?

**Geirfa**
atyniadol
brawddegau byr
clir
cryno
cyfleu neges
diagram / diagramau
ffont / ffontiau
geiriau
gorchymyn / gorchmynion
iaith berswadiol
lliwgar
lluniau addas
manylion addas
teitl lliwgar
tynnu sylw

# Nodyn cyn cychwyn

Er bod yr adnoddau yn barod i'w hargraffu, bydd angen i oedolyn wneud ambell beth ychwanegol cyn eu defnyddio ar lawr y dosbarth. Mae'r symbolau canlynol ar waelod pob adnodd er mwyn hwyluso'r gwaith paratoi:

cyfarwyddiadau

argraffwch

angen laminadu

torrwch o amgylch yr amlinelliad â siswrn

angen marcio neu gofnodi

cerdyn gwybodaeth yn unig

angen chwilio am wrthrychau ychwanegol i gefnogi'r dysgu

ailgylchwch unrhyw bapur gwastraff

# Cadw Dôl-wen yn daclus!

## Ewch â'ch sbwriel adref!

Mae sbwriel yn gallu niweidio anifeiliaid gwyllt a'r amgylchedd. Gall gwydr achosi tân!

## Cerddwch ar y llwybrau!

Mae crwydro oddi ar y llwybrau'n gallu niweidio planhigion prin – a chi!

## Caewch yr iet!

Gall anifeiliaid fel gwartheg a defaid grwydro a niweidio cnydau yn cae drws nesaf.

## Cadwch eich ci ar dennyn!

Gall cŵn godi ofn ar anifeiliaid.

## Parchwch eraill!

Mae cadw sŵn neu ddifrodi yr amgylchedd yn effeithio ar fwynhad eraill.

# Cadw Dôl-wen yn daclus!


Ewch â'ch sbwriel adref!

Cerddwch ar y llwybrau!

Caewch yr iet!

Cadwch eich ci ar dennyn!

Parchwch eraill!




*O! Gwyn ein byd – a gwyrdd!*

# Cadw Dôl-wen
## yn daclus!


Cerddwch ar
y llwybrau!






Ewch â'ch
sbwriel adref!

Cadwch eich ci ar dennyn!





Caewch
yr iet!

Parchwch eraill!